Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Beth yw Cam-drin?




Diogelu Oedolion canllaw hawdd ei ddarllen

# Beth yw cam-drin ac esgeulustod?

Mae cam-drin ac esgeulustod bob amser yn ddrwg. Mae yna wahanol fathau o gam-drin.



## Cam-drin corfforol

yn cynnwys taro, cicio, llosgi neu wneud camgymeriad gyda'ch meddyginiaeth.



## Esgeuluso

mae'n ymwneud â pheidio â chael y cymorth, y bwyd neu'r gofal iechyd sydd ei angen arnoch.



## Hunan-esgeuluso

dyma pryd nad ydych chi'n gofalu amdanoch chi'ch hun, neu ddim eisiau cael cymorth.



## Cam-drin ariannol

mae'n ymwneud â phobl eraill yn dwyn arian neu bethau rydych yn berchen arnynt, peidio â gadael i chi gael arian neu ddweud wrthych ar beth i'w wario.



## Cam-drin domestig

dyma unrhyw fath o gam-drin gan unrhyw un yr ydych yn byw gyda nhw, gan gynnwys cariad, neu gyn-gariadon nad ydych efallai'n byw gyda nhw.



## Cam-drin rhywiol

dyma pryd nad ydych chi eisiau cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol fel cyffwrdd neu gusanu, tynnu neu anfon lluniau rhywiol.




## Cam-drin seicolegol / Emosiynol

gweiddi, neu fygwth pobl yn bersonol neu ar-lein a gallai hyn fod yn fwlio.



## Cam-drin sefydliadol

mae'n ymwneud â gofal gwael, neu esgeulustod gan y bobl sydd yno i'ch cefnogi. Gall hyn gynnwys mathau eraill o gam-drin hefyd.



## Caethwasiaeth Fodern

gweithio heb gael eich talu neu ddim yn cael digon o dâl a gall gynnwys mathau eraill o gam-drin hefyd.



## Gwahaniaethu

mae'n ymwneud ag unrhyw fath o gam-drin oherwydd eich bod yn wahanol.

Gall cam-drin neu esgeulustod ddigwydd 1 neu fwy o weithiau. Gallwch gael eich cam-drin gan rywun rydych yn ei adnabod neu rywun sy'n gweithio gyda chi neu ddieithryn.

Gall cam-drin ddigwydd yn eich cartref eich hun, cartref gofal, meddygfa neu ysbyty neu mewn man cyhoeddus.

# Nid yw cam-drin yn bryd

**Weithiau mae pethau'n digwydd i bob un ohonom nad ydyn ni'n eu hoffi.**

**Weithiau rydyn ni'n cael ein brifo'n ddamweiniol.**

**Weithiau rydym yn dadlau.**

Nid cam-drin yw hyn. **Mae cam-drin yn waeth na'r pethau hyn.**

# Ble mae cam-drin yn digwydd?

Mae angen inni gadw ein hunain yn ddiogel lle bynnag yr ydym. Mae hyn oherwydd y gall cam-drin ddigwydd yn unrhyw le.

Gall ddigwydd:

- yn y cartref
- mewn cartref preswyl neu nyrsio
- mewn man cyhoeddus o'r gymuned
- yn y feddygfa
- yn yr ysbyty
- yn yr ysgol, coleg neu wasanaethau dydd
- yn y gwaith
- ar y ffôn neu ar-lein

**Gall unrhyw un gam-drin.**

# Beth alli di ei wneud?

Ni ddylai neb orfod byw gyda cham-drin.



Trwy **adrodd am gam-drin,** gallwch ddod ag ef i ben.



Mae cam-drin bob amser yn anghywir. Gallwch **siarad â rhywun** sy'n eich cefnogi.



Os ydych chi'n **poeni am ffrind neu aelod o'r teulu** fe allech chi siarad â rhywun sy'n eich cefnogi.

Gallwch ddefnyddio'r rhifau ffôn ar y daflen hon i ofyn am help neu i roi gwybod am gam-drin.

**Pan fyddwch yn adrodd am gam-drin, bydd pobl yn gwrando arnoch chi ac yn eich cymryd o ddifrif.**

# Gelwir hyn yn Diogelu

**Mae diogelu yn eich helpu i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth neu esgeulustod.**

**Dweud wrthon ni am bryder Diogelu:**

## Blaenau Gwent

**01495 315700**
DutyTeamAdults@blaenau-gwent.gov.uk

## Caerffili

**0808 100 2500**
IAAAdults@caerphilly.gov.uk

## Torfaen

**01495 762200**
Socialcarecalltorfaen@torfaen.gov.uk

## Casnewydd

**01633 656656**
Firstcontact.adults@newport.gov.uk
pova.team@newport.gov.uk

## Sir Fynwy

**01873 735492**
MCCadultsafeguarding@monmouthshire.gov.uk

**Os ydy e'n fater brys ac rydych chi angen cysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa, ffoniwch ein Tîm Dyletswydd Argyfwng ar 0800 328 4432.**

**Os ydych chi angen ambiwlans neu'r heddlu, gallwch chi alw 999.**

Am ragor o wybodaeth am
**Fwrdd Diogelu Oedolion Gwent**

**www.gwentsafeguarding.org.uk**


**Twitter.com/GwentBoard**

**Gwentsafeguarding@caerphilly.gov.uk**

**01443 864617**

# Os oeddwn i'n poeni am gamdriniaeth...

**Gallwn i siarad gyda:**

# Os oeddwn i’n poeni am gamdriniaeth...

**Hoffwn i helpu:**